

No.

CABINET

Cofnodion cyfarfod Hybrid a gynhaliwyd ar 24 Hydref, 2024.

Mae'r Agenda ar gael [yma](#).

Mae recordiad y cyfarfod ar gael [yma](#).

Yn Bresennol: Y Cynghorydd L. Burnett (Cadeirydd); Cynghorwyr B.E. Brooks, R.M. Birch, G. John, S. Sivagnanam, E. Williams and M.R. Wilson

C145 CYHOEDDIAD -

Dechreuodd yr Arweinydd drwy roi gwybod am rai materion cadw tŷ a dywedodd fod y cyfarfod yn cael ei ffrydio'n fyw, ei recordio ac y byddai'n cael ei lanlwytho i wefan Cyngor Bro Morgannwg cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl y cyfarfod.

C146 YMDDIHEURIAD AM ABSENOLDEB –

Derbyniwyd hwn gan y Cynghorydd S.D. Perkes.

C147 COFNODION –

PENDERFYNWYD – CYMERADWYO cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 10 Hydref, 2024 fel cofnod cywir.

C148 DATGANIADAU BUDDIANT –

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau buddiant.

C149 ADOLYGIAD O DDATGANIAD O EGWYDDORION DEDDF HAPCHWARAE 2005 – 2025-2028 (CYF) -

Cyflwynwyd y cyfeiriad o gyfarfod y Pwyllgor Trwyddedu Statudol a gynhaliwyd ar 17 Medi 2024 yn dilyn ymgynghoriad statudol a gynhaliwyd ynghylch adnewyddu'r Datganiad Egwyddorion sy'n llywodraethu polisi trwyddedu, cyn cael ei ystyried gan y Cabinet a'i anfon ymlaen i'r Cyngor Llawn i'w gymeradwyo'n derfynol.

Dywedodd yr Aelod Cabinet nad oedd unrhyw newidiadau i'r polisi a gynigiwyd yn dilyn yr ymgynghoriad a gofynnodd i'r Cabinet gymeradwyo'r Datganiad Egwyddorion a chyfeirio'r mater at y Cyngor Llawn i'w gymeradwyo.

PENDERFYNWYD – O ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad a'r drafodaeth yng nghyfarfod y Pwyllgor Trwyddedu Statudol, bod y Datganiad Egwyddorion

No.

Trwyddedu arfaethedig ar gyfer 2025-2028 a nodir yn yr adroddiad ac yn Atodiad A yn cael ei gymeradwyo a'i gyfeirio at y Cyngor Llawn i'w gymeradwyo'n derfynol.

Y rheswm dros y penderfyniad

Wedi ystyried cynnwys y cyfeiriad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

**C150 ADRODDIAD MONITRO BLYNYDDOL SAFONAU'R GYMRAEG
2023-24 (CYF) -**

Cyflwynwyd y cyfeiriad o gyfarfod y Pwyllgor Craffu Dysgu a Diwylliant a gynhaliwyd ar 19 Medi 2024.

Dyweddodd yr Aelod Cabinet fod pwyntiau diddorol wedi'u codi yn y cyfarfod, nad oedd rhai ohonynt wedi'u codi o'r blaen, e.e. nid oedd digon o drafnidiaeth ysgol ar gyfer un ysgol gynradd Gymraeg a godwyd wedi hynny gyda Swyddogion o fewn y Tîm Trafnidiaeth Ysgol.

Trafododd y Pwyllgor hefyd yr anhawster o ran denu a chadw athrawon sy'n siarad Cymraeg gan fod prinder athrawon sy'n gallu addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg ar draws Cymru, gan nodi y dylai'r Cyngor geisio manteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd i recriwtio a chadw staff addysgu ac eraill sydd â sgiliau Cymraeg. Dywedodd yr Aelod Cabinet fod Cyngor Bro Morgannwg wedi gwneud cais am ac ennill arian i hyfforddi athrawon tra yn yr ysgol i weithio tuag at fynd i'r afael â'r mater.

Cyfeiriodd y Pwyllgor sylw at y Cabinet i ystyried cynnig bod Bro Morgannwg yn ystyried cais i gynnal Eisteddfod yr Urdd 2029 yn y Barri ac roedd yr Aelod Cabinet yn hapus i'w gefnogi ac wedi ysgrifennu at Swyddogion yn unol â hynny. Dywedodd yr Arweinydd nad oedd yr Eisteddfod Genedlaethol wedi cael ei chynnal ym Mro Morgannwg ers 2012 a'i bod wedi bod yn hynod lwyddiannus bryd hynny a'i fod yn edrych ymlaen at ddarganfod a fyddai'r cais hwnnw'n bosibl.

PENDERFYNWYD – BOD y sylwadau a'r argymhellion o gyfarfod y Pwyllgor Craffu Dysgu a Diwylliant a gynhaliwyd ar 19 Medi 2024 yn cael eu nodi.

Y rheswm dros y penderfyniad

Wedi ystyried cynnwys y cyfeiriad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

**C151 ADRODDIAD DIOGELU CORFFORAETHOL BLYNYDDOL:
2023/2024 (CYF) -**

Cyflwynwyd y cyfeiriad o gyfarfod y Pwyllgor Craffu Dysgu a Diwylliant a gynhaliwyd ar 19 Medi 2024.

Trafododd y Pwyllgor Lywodraethwyr Ysgol yn cwblhau hyfforddiant diogelu gan nad oedd pob un ohonynt wedi cwblhau'r modiwlau Diogelu perthnasol ac roedd angen mynd i'r afael â hyn.

No.

Cafwyd trafodaeth hefyd ynghylch faint o amser staff a gafodd ei dreulio yn gweithredu diogelu mewn ysgolion gyda phenderfyniadau'n cael eu gwneud ynghylch sut y dylid trin neu atgyfeirio pob achos, gan gynnwys hyfforddiant PREVENT y Swyddfa Gartref. Dywedodd yr Aelod Cabinet fod yr holl staff yn cael eu hyfforddi'n rheolaidd ar faterion o'r fath i fod yn ymwybodol o'r gwahanol faterion a heriau sy'n wynebu plant a phobl ifanc.

PENDERFYNWYD – BOD y sylwadau a'r argymhellion o gyfarfod y Pwyllgor Craffu Dysgu a Diwylliant a gynhaliwyd ar 19 Medi 2024 yn cael eu nodi.

Y rheswm dros y penderfyniad

Wedi ystyried cynnwys y cyfeiriad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

C152 ADRODDIAD DIOGELU CORFFORAETHOL BLYNYDDOL 2023/2024 (CYF) -

Cyflwynwyd y cyfeiriad o gyfarfod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a gynhaliwyd ar 23 Medi 2024.

Cafwyd trafodaeth ynghylch a oedd yr holl Gynghorwyr yn cael eu gwirio gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (GDG) a chadarnhawyd bod yr holl Gynghorwyr yn cael eu gwirio a bod unrhyw Gynghorydd a oedd â chyfrifoldeb neu a oedd ar Bwyllgor yn ymwneud â phlant a phobl ifanc neu bobl agored i niwed yn cael gwiriad GDG Manwl. Gofynnwyd hefyd a oedd darpariaeth i gynnal gwiriadau GDG ar sail dreigl.

Trafododd y Pwyllgor gam-drin yn y cartref hefyd ac a oedd rhai o'r ffigurau a ddyfynnir yn benodol i Fro Morgannwg neu'n ehangach ac a oedd ffigurau'n debyg i Awdurdodau Lleol eraill, ac roedd y Swyddogion yn mynd i ymateb i hyn.

Ychwanegodd y Cynghorydd Williams fod cydnabyddiaeth yn y ddau Bwyllgor ei fod yn adroddiad diogelu corfforaethol a bod dyletswydd ar yr Aelodau a'r staff i adrodd unrhyw faterion yn ymwneud â diogelu, y cytunodd yr Arweinydd ei fod yn hanfodol bwysig.

PENDERFYNWYD – BOD y sylwadau o gyfarfod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a gynhaliwyd ar 23 Medi 2024 yn cael eu nodi.

Y rheswm dros y penderfyniad

Wedi ystyried cynnwys y cyfeiriad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

C153 STRATEGAETH ARIANNOL 2025/26 I 2029/30 (CYF) -

Cyflwynwyd y cyfeiriad o gyfarfod eithriadol y Pwyllgor Craffu Adnoddau a Pherfformiad Corfforaethol a gynhaliwyd ar 2 Hydref 2024.

Cafwyd trafodaeth ynghylch y bwch cyllid a ragwelwyd o £9.392m ar gyfer 2025/26 a'r ffaith bod y ffigwr yn debygol o dyfu oherwydd pwysau a oedd yn dod i'r amlwg. Dywedodd yr Arweinydd y byddai adroddiadau pellach yn ystyried y mater yn cael eu cyflwyno i'r Cabinet yn y mis nesaf.

Dywedodd y Swyddog Adran 151 fod Bro Morgannwg yn Awdurdod a oedd yn cael ei gyllido'n gymharol isel a'i fod wedi gosod lefel gymharol isel o Dreth Gyngor o gymharu ag Awdurdodau Lleol eraill a oedd yn her gyda chostau cynyddol, e.e. rhenti'r sector preifat.

Trafododd y Pwyllgor feysydd gweithredu posibl eang ac argymhellodd fod y Cabinet yn ystyried buddsoddi mewn prosiectau gwario i arbed a photensial ar gyfer swyddogaeth gaffael strategol. Dywedodd yr Arweinydd fod gwario i arbed yn faes a oedd yn berthynol i'r agenda Ail-lunio ac y byddai'r sylw yn cael ei gyfeirio i'r broses honno. O ran y swyddogaeth gaffael strategol, dywedodd yr Arweinydd fod y Cyngor ar hyn o bryd mewn trefniant gydag Awdurdodau Lleol eraill ar gyfer gwasanaeth caffael a rennir ac y byddai'n trosglwyddo'r sylw hwnnw i Ardal.

PENDERFYNWYD - BOD y sylwadau a'r argymhellion o gyfarfod eithriadol y Pwyllgor Craffu Adnoddau a Pherfformiad Corfforaethol a gynhaliwyd ar 2 Hydref 2024 yn cael eu nodi.

Y rheswm dros y penderfyniad

Wedi ystyried cynnwys y cyfeiriad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

C154 CAU CYFALAF CYFRIFON 2023/24 (CYF) –

Cyflwynwyd y cyfeiriad o gyfarfod eithriadol y Pwyllgor Craffu Adnoddau a Pherfformiad Corfforaethol a gynhaliwyd ar 2 Hydref 2024.

Ystyriodd y Pwyllgor sefyllfa referniw diwedd y flwyddyn a nododd fod gwarged o £2.08m ar ddiwedd y flwyddyn y cynigiwyd ei drosglwyddo i gronfeydd wrth gefn fel a ganlyn:

- Sefydlu cronfa wrth gefn newydd a dros dro gwerth £2m i wrthbwysio diffygion addysg yn 2024/25 dros dro tra bod y Cyngor yn gweithio gydag ysgolion ar sefydlu dull cydlynol o fynd i'r afael â diffygion mewn ysgolion;
- Roedd y balans o £80k wedi'i drosglwyddo i'r Gronfa Gyffredinol.

Roedd lefel y Cronfeydd Wrth Gefn Defnyddiadwy wedi gostwng yn ystod y flwyddyn, er yn llai na'r hyn a ragwelwyd, ond roedd rhai o'r ymrwymadau hynny wedi llithro i 2024/25 yn unol â llithriad Gwariant Cyfalaf.

No.

Gofynnodd y Pwyllgor i'r Cabinet ystyried y posibilrwydd o gael swyddog caffael pwrpasol ar gyfer ysgolion a fyddai'n cyd-fynd â'r cymorth ariannol a oedd eisoes yn cael ei gynnig i ysgolion, er bod caffael bellach yn fater sy'n cael sylw dan gytundeb ar y cyd ag Ardal. Gofynnid i'r swyddogion ymchwilio i'r awgrym. Trafodwyd y sefyllfa ariannol mewn ysgolion a chafwyd trafodaeth ac argymhelliad i ystyried ymhellach roi cymorth ac arweiniad pellach i gyrff llywodraethu ynghylch diffygion yng nghyllidebau ysgolion. Dywedodd yr Arweinydd fod y Tîm Cyllid Ysgolion yn gweithio gydag ysgolion ac y byddai'n hapus i gynorthwyo cyrff llywodraethu, a bod ysgolion eraill yn gallu cynnig cymorth cyfoedion.

Gofynnodd y Pwyllgor hefyd am i gau adroddiadau cyfrifon yn y dyfodol fanylu ar ddefnydd wedi'i gynllunio a heb ei gynllunio o gronfeydd wrth gefn yn fwy eglur. Byddai'r Pennaeth Cyllid yn ceisio mynd i'r afael â hyn mewn adroddiadau yn y dyfodol.

PENDERFYNWYD - BOD y sylwadau a'r argymhellion o gyfarfod eithriadol y Pwyllgor Craffu Adnoddau a Pherfformiad Corfforaethol a gynhaliwyd ar 2 Hydref 2024 yn cael eu nodi, gyda manylion yn cael eu trosglwyddo i'r Swyddogion perthnasol i'w hystyried.

Y rheswm dros y penderfyniad

Wedi ystyried cynnwys y cyfeiriad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

C155 PANEL RHIANTA CORFFORAETHOL –

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod y Panel Rhianta Corfforaethol a gynhaliwyd ar 8 Gorffennaf 2024.

Dywedodd yr Aelod Cabinet, sef Cadeirydd y Panel, fod y Siarter Rhianta Corfforaethol wedi cael ei ystyried yn y cyfarfod. Cytunwyd y dylid trefnu gweithdy yn y dyfodol ym mis Tachwedd er mwyn i'r Panel edrych yn fanwl ar sut i fodloni'r holl ofynion perthnasol.

Ystyriodd y Panel hefyd y ffigyrau Plant sy'n Derbyn Gofal diweddaraf ar gyfer Bro Morgannwg.

Nododd y Cynghorydd Williams nad oedd y cofnodion wedi'u cytuno'n ffurfiol eto gan y Panel a fyddai'n eu hystyried yng nghyfarfod mis Tachwedd a byddai unrhyw ddiwygiadau yn cael eu dwyn yn ôl i'r Cabinet neu'n cael eu hystyried fel y cytunwyd pe na bai unrhyw sylwadau yn cael eu derbyn.

PENDERFYNWYD – BOD cofnodion cyfarfod y Panel Rhianta Corfforaethol a gynhaliwyd ar 8 Gorffennaf 2024 yn cael eu nodi, yn amodol ar ystyriaeth yng nghyfarfod nesaf y Panel Rhianta Corfforaethol ym mis Tachwedd 2024.

Y rheswm dros y penderfyniad

Wrth nodi'r cofnodion.

C156 PWYLLGOR YMGYNGHOROL BAE CAERDYDD –

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod Pwyllgor Cyngori Bae Caerdydd a gynhaliwyd ar 10 Gorffennaf 2024.

Dywedodd yr Aelod Cabinet, a gafodd ei ailbenodi fel Cadeirydd y Pwyllgor, fod y Pwyllgor wedi trafod yr Amserlen Cyfarfodydd, diogelwch mordwyo, cynnydd cyffredinol gan Awdurdod yr Harbwr a diweddariad gan Cyfoeth Naturiol Cymru ar lefelau ocsigen toddedig. Roedd un mân ddigwyddiad llygredd a oedd wedi'i ddatrys yn gyflym.

PENDERFYNWYD – BOD cofnodion cyfarfod Pwyllgor Cyngori Bae Caerdydd a gynhaliwyd ar 10 Gorffennaf 2024 yn cael eu nodi.

Y rheswm dros y penderfyniad

Wrth nodi'r cofnodion.

**C157 PENODI PANEL YMGYNGHOROL LLYWODRAETHWYR
AWDURDOD LLEOL –**

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod y Panel Cyngori ar Benodi Llywodraethwyr Awdurdod Lleol a gynhaliwyd ar 9 Hydref 2024.

Roedd yr Aelod Cabinet yn falch o weld faint o bobl a oedd wedi bod yn barod i roi amser ac ymdrech i gefnogi ysgolion lleol fel Llywodraethwyr. Ar hyn o bryd dim ond dwy swydd wag a oedd eto i'w phenodi. Cydnabu'r Arweinydd ymrwymiad y Llywodraethwyr o ran bod angen deall materion fel diogelu, cyllid, perfformiad ysgolion a diolchodd i bawb a oedd wedi gwirfoddoli i ymgymryd â'r rolau hynny.

PENDERFYNWYD –

- (1) BOD cofnodion cyfarfod y Panel Cyngori ar Benodi Llywodraethwyr Awdurdod Lleol a gynhaliwyd ar 9 Hydref 2024 yn cael eu nodi.
- (2) BOD y penodiadau canlynol yn cael eu gwneud i'r ysgolion fel y nodir isod:

Ysgol	Nifer o Swyddi Gwag	Penodi
Ysgol yr Eglwys yng Nghymru yr Holl Saint	1	Dim – yn parhau'n wag*
Ysgol Gynradd Tregatwg	1	D. Stolzenberg
Ysgol Gynradd Cogan	1	C. Shillabeer
Ysgol Gynradd Colcot	1	J.D. Rogers

No.

Ysgol Gyfun y Bont-faen	2	S. Blackman a D. Farrell
Ysgol Gynradd Dinas Powys	1	N. Meredith
Ysgol Gynradd Evenlode	2	A. Thomas a K. Nolan
Ysgol Gynradd Gladstone	1	Y Cynghorydd P. Drake
Ysgol Gynradd High Street	1	L. Banks
Ysgol Gynradd Holltwn	2	J. Scott ac S. Pengelly**
Ysgol Gynradd Parc Jenner	1	E. Ryles
Ysgol Gynradd Llan-gan	1	E. Thomas
Ysgol Gynradd Llandochoau	1	Y Cynghorydd G.D.D. Carroll
Ysgol Gynradd Llanfair	2	S. Bonnar ac N. Phillips
Ysgol Gynradd Oakfield	2	L. Banks a C. Hunt**
Ysgol Uwchradd Pencoedtre	1	D. Carter
Ysgol Gynradd Llanbedr-y-fro	1	S. Evans
Ysgol Gynradd y Rhws	1	J. Nixon
Ysgol Gynradd Romilly	2	M. Kennedy a C. Withycombe
Ysgol Gynradd South Point	1	B. Millhausen
Ysgol Gyfun Sant Cyres	4	H. Evans; Y Cynghorydd C.P. Franks; S. Pengelly ac S. Dowling
Ysgol Gynradd Illtud Sant	1	M. Evans
Ysgol yr Eglwys yng Nghymru Sain Nicolas	1	C. Hunt
Sant Richard Gwyn	2	D. Carter Un penodiad wedi'i wneud, un swydd yn parhau'n wag*
Ysgol Gynradd Sili	1	E. Parker
Ysgol Uwchradd Whitmore	2	Y Cynghorydd N. Marshallsea a'r Cynghorydd E. Goodjohn
Y Bont-Faen	1	M. Evans
Ysgol Bro Morgannwg	5	D. Griffith; G. Evans; H. Llewellyn-Morgan; R. A. Evans ac S. Evans
Ysgol Pen y Garth	1	R. Griffiths
Ysgol Sant Baruc	2	S. Evans ac O. Williams

Y rhesymau dros y penderfyniadau

- (1) Wrth nodi'r cofnodion.
- (2) Cymeradwyo'r penodiadau i'w gwneud i'r ysgolion.

C158 STRATEGAETH BUDDSODDI CYFALAF DRAFFT 2025/26 A CHYNNIGION RHAGLEN GYFALAF GYCHWYNNOL 2025/26 I 2029/30 (AG/BA) (CRAFFU – PERFFORMIAD CORFFORAETOL AC ADNODDAU) -

The Leader presented the report to gain approval for the Initial Capital Programme Proposals for 2025/26 to 2029/30 so that they may be submitted to Scrutiny Committees for consultation and to set out the Draft Capital Investment Strategy for Cabinet Members to consider.

Cyflwynodd yr Arweinydd yr adroddiad i gael cymeradwyaeth ar gyfer y Cynigion Rhaglen Gyfalaf Cychwynnol ar gyfer 2025/26 i 2029/30, fel y gellir eu cyflwyno i Bwyllgorau Craffu ar gyfer ymgynghori a nodi'r Strategaeth Buddsoddi Cyfalaf Ddrafft i Aelodau'r Cabinet ei hystyried.

Dywedodd yr Arweinydd ei bod yn bwysig bod yn ymwybodol a chael syniad clir o gostau cynlluniau newydd gan ystyried pwysau sylweddol mewn perthynas â chwyddiant prisiau deunyddiau a llafur, ond bod arian wedi'i neilltuo o gronfeydd wrth gefn ar gyfer rhai materion o fewn y rhaglen a bod cyllid posibl arall fel benthycu, grantiau neu gyfraniadau a106 wedi'i ystyried.

Roedd hwn yn fater i'r Weithrediaeth benderfynu arno.

Ar ôl i'r Cabinet ystyried yr adroddiad a'r holl faterion a goblygiadau ynddo,

PENDERFYNWYD –

- (1) BOD Strategaeth Buddsoddi Cyfalaf Ddrafft 2025/26 fel y'i nodir yn Atodiad 1 yn cael ei chymeradwyo.
- (2) BOD y Rhaglen Gyfalaf Gychwynnol ar gyfer 2025/26 i 2029/30 yn cael ei chymeradwyo.

Y rhesymau dros y penderfyniadau

- (1) Cymeradwyo Strategaeth Gyfalaf Ddrafft 2025/26.
- (2) Ymgynghori â'r Aelodau ar y Rhaglen Gyfalaf ar gyfer 2025/26 i 2029/30.

C159 CYNLLUN AIL-WYNEBU TAIR BLYNEDD CYNNAL A CHADW PRIFFYRDD DIWYGIEDIG 2024 – 2027 (WCA) (CRAFFU – AMGYLCHEDD AC ADFYWIAD) -

Cyflwynodd yr Aelod Cabinet yr adroddiad i roi gwybod i'r Cabinet o'r newidiadau a ddefnyddiwyd i nodi lleoliadau blaenoriaeth ar gyfer gwaith arwynebu ac i gytuno ar y cynllun ar gyfer 2024 – 2027.

Dywedodd y Cynghorydd Wilson ei bod yn bwysig cofio bod y briffordd yn cynnwys defnydd gan feicwyr a cherddwyr yn ogystal â cherbydau, gan gynnwys ffyrdd a phalmentydd. Cyfeiriodd at Atodiad B yr adroddiad ynghylch y Matrics Sgorio

No.

Cynnal a Chadw Priffyrdd newydd a oedd hefyd yn cynnwys llwybrau Teithio Llesol yn ogystal â llwybrau trafndiaeth ysgol / cyhoeddus.

Roedd £2.9M yn y rhaglen gyfalaf ar gyfer 2024/25, ar gyfer gwaith arwynebu a thrin fel paratoi arwynebau, triniaeth asffalt micro a gwaith gwella troedffyrdd, fel y nodir yn Atodiadau A-1 i A-4 yr adroddiad.

Dywedodd yr Arweinydd ei bod yn bwysig edrych ar y meini prawf amrywiol, sut yr effeithiodd traffig ar briffyrdd mewn gwahanol ffyrdd mewn gwahanol ardaloedd ac roedd yn edrych ymlaen at y drafodaeth yng nghyfarfod y Pwyllgor Craffu Adfywio a'r Amgylchedd.

Roedd hwn yn fater i'r Weithrediaeth benderfynu arno.

Ar ôl i'r Cabinet ystyried yr adroddiad a'r holl faterion a goblygiadau ynddo,

PENDERFYNWYD –

- (1) BOD cynnwys Cynllun Arwynebu Ffyrdd Tair Blynedd 2024 – 2027 diwygiedig yr adran Cynnal a Chadw Priffyrdd fel sydd wedi'i atodi yn Atodiad A - 1, 2, 3 a 4 yr adroddiad yn cael ei nodi, a bod y lleoliadau ar gyfer gwaith arwynebu yn cael eu cytuno mewn egwyddor.
- (2) BOD y newidiadau i'r matrices sgorio blaenoriaeth lonydd cerbydau i ymgorffori llwybrau teithio llesol a beicio o fewn y fethodoleg yn cael eu nodi.
- (3) BOD awdurdod dirprwyedig yn cael ei roi i Gyfarwyddwr yr Amgylchedd a Gwasanaethau Tai i ddiwygio'r Cynllun, mewn ymgynghoriad â'r Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdogaethau ac Adeiladau, yn achos nodi blaenoriaethau brys i arwynebu'r briffordd.
- (4) BOD y mater yn cael ei gyfeirio at y Pwyllgor Craffu Adfywio a'r Amgylchedd i'w ystyried.
- (5) BOD, ar yr amod bod dim sylwadau a fyddai'n effeithio ar y Cynllun fel y'i cynigiwyd yn cael eu derbyn gan y Pwyllgor Craffu Adfywio a'r Amgylchedd, Cynllun Arwynebu Ffyrdd Tair Blynedd 2024 - 2027 yr adran Cynnal a Chadw Priffyrdd yn cael ei gytuno.
- (6) BYDDAI swyddogion technegol y Cyngor o fewn y tîm Cynnal a Chadw Priffyrdd, lle rhestrwyd lleoliad ar y Cynllun, yn blaenoriaethu'r graddau llawn, fodd bynnag efallai mai dim ond ardaloedd rhannol a fyddai'n cael eu cwblhau, dim ond er mwyn sicrhau bod y gyllideb yn cael ei dyrannu yn y ffordd orau ac nad oedd unrhyw ddeunydd o gyflwr cadarn yn cael ei symud a'i ddisodli gan ddeunydd newydd.

Y rhesymau dros y penderfyniadau

- (1) Cytuno ar Gynllun Arwynebu Ffyrdd Tair Blynedd 2024 – 2027 yr adran Cynnal a Chadw Priffyrdd, yn amodol ar ei ystyried gan y Pwyllgor Craffu Adfywio a'r Amgylchedd.
- (2) Sicrhau bod ardaloedd sy'n effeithio ar Deithio Llesol a llwybrau a ddefnyddir gan feicwyr yn cael eu hystyried yn iawn.
- (3) Delio'n effeithlon â newidiadau yn y Cynllun pe bai llwybrau priffyrdd eraill yn dirywio'n gyflymach na'r disgwyl neu fod cyfyngiadau'n mynnu bod angen newid blaenoriaeth er mwyn sicrhau'r defnydd mwyaf cost-effeithiol o'r gyllideb wedi'i dyrannu.
- (4) Sicrhau y gallai'r Pwyllgor Craffu perthnasol ystyried manylion Cynllun Arwynebu Ffyrdd Tair Blynedd 2024 – 2027 yr adran Cynnal a Chadw Priffyrdd cyn iddo gael ei gytuno'n ffurfiol.
- (5) Galluogi'r Cynllun terfynol i gael ei gymeradwyo ar ôl iddo gael ei ystyried gan y Pwyllgor Craffu perthnasol, ar yr amod nad yw unrhyw sylwadau sy'n effeithio ar y Cynllun fel y'i cynigiwyd yn cael eu derbyn.
- (6) Sicrhau bod y gyllideb Arwynebu Priffyrdd (2024/25) yn cael ei defnyddio mor effeithlon â phosibl.

C160 CONTRACT AR GYFER DARPARU LLETY Â CHYMORTH I BLANT A PHOBL IFANC YM MRO MORGANNWG (GCI) (CRAFFU – BYW'N IACH A GOFAL CYMDEITHASOL) -

Cyflwynodd yr Aelod Cabinet yr adroddiad a oedd yn gofyn am awdurdod i ymgymryd â phroses dendro yn ymwneud â darparu'r gwasanaethau uchod ac yn gofyn am awdurdod dirprwyedig i ddyfarnu'r contract i'r darparwr/darparwyr llwyddiannus.

Diolchodd y Cynghorydd Williams i'r holl staff a fu'n rhan o lunio'r adroddiad ac am y gwaith a gwblhawyd i allu cyflwyno'r mater i'r Cabinet ei ystyried gan fod angen sylweddol wedi'i nodi ym Mro Morgannwg a bod llawer o waith wedi'i gwblhau i gyflwyno'r mater i'w ystyried. Adleisiwyd hyn gan yr Aelodau Cabinet eraill.

Roedd anghenion yr unigolion o fewn pob un o'r tri lot yn dra gwahanol, ac felly'r angen am y tri thendr gwahanol.

Dywedodd yr Arweinydd ei bod yn waith pwysig i sicrhau nad yw pobl mewn amgylchiadau o'r fath yn teimlo'n unig yn ifanc a'i bod yn bwysig gallu eu helpu.

Roedd hwn yn fater i'r Weithrediaeth benderfynu arno.

Ar ôl i'r Cabinet ystyried yr adroddiad a'r holl faterion a goblygiadau ynddo,

PENDERFYNWYD –

(1) BOD Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol, mewn ymgynghoriad â'r Aelod Cabinet dros Ofal Cymdeithasol ac Iechyd, yn cael ei awdurdodi i ymgymryd â phrosesu tendro cystadleuol ar gyfer darparu gwasanaethau llety dros dro a rennir ar gyfer plant a phobl ifanc digwmni sy'n ceisio lloches agored i niwed, llety byw â chymorth dros dro i blant a phobl ifanc agored i niwed, a llety â chymorth brys i bobl ifanc agored i niwed ym Mro Morgannwg.

(2) BOD Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol, mewn ymgynghoriad â'r Aelod Cabinet dros Ofal Cymdeithasol ac Iechyd, yn cael ei awdurdodi i ddyfarnu'r contract(au) ar gyfer y gwasanaethau hynny am gyfnod cychwynnol o bum mlynedd gyda'r opsiwn i ymestyn am hyd at ddwy flynedd arall, ar ôl cwblhau'r broses dendro.

(3) BOD y Swyddog Monitro / Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol a'r Pennaeth Cyllid / Swyddog Adran 151 yng Nghyngor Bro Morgannwg yn cael ei awdurdodi i weithredu contract gyda'r Darparwr/Darparwyr llwyddiannus.

Y rhesymau dros y penderfyniadau

(1) Sicrhau bod y Cyngor yn darparu llety dros dro a rennir ar gyfer plant a phobl ifanc digwmni sy'n ceisio lloches agored i niwed ym Mro Morgannwg mewn ffordd gost-effeithiol sy'n bodloni gofynion Canllawiau Plant Digwmni sy'n Ceisio Lloches Llywodraeth Cymru a safonau gofynnol Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC).

(2) Sicrhau bod y Cyngor yn darparu llety byw â chymorth dros dro a lleoliadau llety â chymorth brys ar gyfer plant a phobl ifanc digwmni sy'n ceisio lloches agored i niwed ym Mro Morgannwg mewn ffordd gost-effeithiol sy'n bodloni gofynion Canllawiau Plant Digwmni sy'n Ceisio Lloches Llywodraeth Cymru a safonau gofynnol Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC).

(3) Sicrhau bod y Cyngor yn bodloni gofynion ei Reolau Gweithdrefn Contractau a'i Reolau Gweithdrefn Ariannol.

C161 GWASANAETHAU RHEOLIADOL A RENNIR – DIWYGIO'R CYTUNDEB CYDWEITHIO (YGCGR) (CRAFFU – CARTREFI A CHYMUNEDAU DIOGEL) -

Cyflwynodd yr Aelod Cabinet yr adroddiad a oedd yn argymhell, ac yn gofyn am gymeradwyaeth i, newid y Cytundeb Cydweithio rhwng y Cyngorau partner ar gyfer darparu Gwasanaethau Rheoliadol. Byddai'r newid yn golygu ychwanegu Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017 at y rhestr o swyddogaethau wedi'u dirprwyo i Gydbwyllgor y Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir (GRhR).

Roedd hwn yn fater i'r Weithrediaeth benderfynu arno.

Ar ôl i'r Cabinet ystyried yr adroddiad a'r holl faterion a goblygiadau ynddo,

PENDERFYNWYD –

- (1) BOD y newid arfaethedig i'r Cytundeb Cydweithio dan Weithred Amrywio rhwng y Cyngorau partner ar gyfer darparu Gwasanaethau Rheoliadol yn cael ei gymeradwyo a bod yr un peth yn cael ei argymhell i'r Cyngor Llawn i'w ystyried a'i gymeradwyo.
- (2) BOD y Swyddog Monitro/Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd yn cael ei awdurdodi i gyflawni'r Weithred Amrywio ofynnol gan adlewyrchu'r newid ar ôl iddo gael ei gymeradwyo gan y Cyngor Llawn.

Y rhesymau dros y penderfyniadau

- (1) Sicrhau bod y gymeradwyaeth briodol yn cael ei cheisio mewn perthynas â'r newid arfaethedig i'r Cytundeb Cydweithio drwy ychwanegu Deddf Iechyd Cyhoeddus Cymru 2017 at y rhestr o swyddogaethau wedi'u dirprwyo i'r Cydbwyllgor a'i chynnwys yn Rhan 1 Atodlen 1 Cytundeb Cydweithio'r Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir i'w chytuno gan y tri Chyngor partner.
- (2) Galluogi gweithredu'r Weithred Amrywio'n briodol i adlewyrchu'r newid yn y Cytundeb Cydweithio wedi cael cymeradwyaeth gan y Cyngor Llawn.